

**TYSTYSGRIF I RADDEDIGION mewn
Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol
LEFEL 6 - 60 Credyd**

**PORTFFOLIO'R DYSGWR
(PORTH AGORED a Phrifysgol Cymru y
Drindod Dewi Sant)**

Enw'r Dysgwr: Fflur Williams

Rhif cofrestru Prifysgol y Dysgwr: 1911113

**ACADEMI CYMRU ar gyfer ARFER PROFFESIYNOL
ac YMCHWIL CYMHWYSOL
2019 - 2010**

Adran 3

Sylwadau gan unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teulu a gofalwyr

Canllawiau: Rhaid i ddysgwyr ddewis arsylwad sy'n ymwneud yn uniongyrchol gydag ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr a chofnodi hyn ar y ffurflen isod. Ni all yr arsylwi ddod o roi tystiolaeth mewn llys, cyfrannu at gyfarfodydd grŵp strategol, cynadleddau achos neu dribiwnlysoedd neu unrhyw weithgaredd anuniongyrchol arall. Mae'n rhaid gofyn caniatâd y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr cyn cynhelir y gwaith arsylwi. Rhaid i'r gwaith arsylwi gael ei wneud gan arsyllwr sydd â chymwysterau gwaith cymdeithasol gydag o leiaf tair blynedd o brofiad (meini prawf wedi eu gosod yn Llawlyfr y Rhaglen). Rhaid i'r arsylwi fod yn o leiaf 30 munud o hyd. Bydd yr arsyllwr yn derbyn adborth gan yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr gan ddefnyddio'r ffurflen isod ar ddiwedd yr ymweliad.

Er y gall y dysgwr ddewis defnyddio'r ffurflenni a ddarparwyd i gasglu adborth, fe'i hanogir i wneud hyn mor fanwl â phosib gan ddefnyddio ystod o ffyrdd casglu, yn dibynnu ar oed, gallu ac anghenion yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd neu ofalwyr.

Wrth lenwi'r adran yma dylech wyllo'r pedwar clip fideo o 'Mwy na Geiriau' ar Moodle gan y gallai'r rhain eich helpu i feddwl am eich profiadau eich hunan a myfyrio pam y dylai iaith fod yn rhan hanfodol o asesu a darpariaeth gwasanaeth.

Crynodeb Arsylwi

Dylech gynnwys enw'r tyst arbenigol sydd yn arsylwi yn adran 8.

Dyddiad yr arsylwi: 12/10/20

I'w gwblhau gan y dysgwr

Nodwch yr amcanion gwaith cymdeithasol a rhowch ddisgrifiad bras o'r sefyllfa gan gynnwys y cyd-destun daearyddol a chyfreithiol ac unrhyw faterion perthnasol o ran diwylliant, ethnigrwydd ac iaith.

300 gair (+/- 10%: dylech gynnwys nifer y geiriau ar ddiwedd pob rhan)

Prif amcan y darn gwaith cymdeithasol hwn oedd i drafod gwasanaeth ysbaid posibl ar gyfer un o'r unigolion sydd wedi'i ddyrannu i mi. Prif ffocws y drafodaeth oedd i gasglu dymuniadau a theimladau Mam, sef prif ofalwr yr unigolyn ynglŷn ag ychwanegu'r gwasanaeth hwn i gynllun gofal yr unigolyn. Ffocws arall oedd i drafod sut y buasem yn mynd ati i gyflwyno'r unigolyn yn raddol i'r gwasanaeth er mwyn ceisio sicrhau profiad cadarnhaol iddi hi a phawb arall yn gysylltiedig, a fyddai wedyn yn rhoi gwell siawns i'r gwasanaeth hwn weithio fel cytundeb tymor hir er budd gorau'r unigolyn a'r teulu.

Buasai gwasanaeth ysbaid hwn yn cael ei ychwanegu i gynllun gofal a chymorth yr unigolyn a elwir yn ddogfen 'Beth sydd yn bwysig i mi'. Mae'n cyd-fynd a a.54 Deddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sydd yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth ar gyfer oedolyn y mae dyletswydd arno i ddiwallu anghenion o dan a.35. Mae'r unigolyn ar y Gofrestr Anabledd Dysgu ac mae ganddi anghenion cymhleth. Nid oes ganddi'r gallu (capasiti) i wneud penderfyniadau dros ei hunain, felly ei Mhâm sef ei pherthynas agosaf sydd yn gwneud y penderfyniadau hyn drosti ac er ei budd gorau (Deddf Galluedd Meddyliol, 2005).

Mae'r unigolyn yn oedolyn benywaidd, sydd yn byw mewn pentref gwledig yng Ngogledd Cymru, gyda'i Mam a'i Llys Dad. Mae'n berson Cymraeg ac o ethnigrwydd gwyn. Iaith yr aelwyd yw Cymraeg, ac mae'r iaith hon a diwylliant Cymraeg yn bwysig i'r unigolyn a'r teulu. Mae dros hanner o'r boblogaeth y pentref yn siaradwyr Cymraeg (Cyfrifiad 2011). Er yn ardal wledig, mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael ac mae mynediad at wasanaethau, gyda'r unigolyn yn mynychu gwasanaeth dydd 5 gwaith yr wythnos. Mae ieuchyd Llys-dad yr unigolyn wedi dirywio'n ddiweddar sydd wedi rhoi Mam o dan fwy fyth o straen.

Nifer Geirfâu: 310

Dylech fyfyrion yn feirniadol ar eich dulliau a'ch sgiliau cyfathrebu yn ystod y gwaith arsylwi gan gynnwys sut y gwnaethoch nodi os oedd gennych y sgiliau cyfathrebu angenrheidiol i weithio gyda'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a gofalmwy. Dangoswch sut y gwnaethoch llynu at y gwerthoedd gwaith cymdeithasol drwy ddefnyddio'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, Cod Ymarfer Proffesiynol Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, ymarfer sy'n ddiwyllianol sensitif, dewis iaith gan gynnwys yr egwyddor 'Cynnig Rhagweithiol' ac ymarfer moesegol.

1300 gair (+/- 10%: dylech gynnwys nifer y geiriau ar ddiwedd pob rhan)

Yn seiliedig ar yr amgylchiadau presennol (Covid-19) cafodd yr arsylwad hwn ei gynnal drwy alwad fideo 'Microsoft Teams'. Nid oedd unrhyw fater technegol ar y diwrnod, felly roedd posib cyfathrebu a chlywed ein gilydd yn glir a didrafferth. Wrth adlewyrchu'n ôl, yn ddelfrydol buaswn wedi hoffi cwblhau'r arsylwad yn uniongyrchol er mwyn sicrhau awyrgylch mwy cartrefol. Yn ogystal roeddwn eisiau'r cyfle i fanteisio ar ddefnydd o ymddygiad di-eiriau megis cyswllt llygad a fy osgo er mwyn dangos yn glir fy mod yn gwrando, yn dangos diddordeb ac yn deall yr hyn oedd yn cael ei ddweud (Lishman, 1994, 19). Hefyd credaf fod posib cael teimlad, a gwell darlun o'r gwir sefyllfa wrth ymweld, a bod yn bresennol yn y cyfeiriad.

Oherwydd fy mod i wedi bod yn gweithio ar yr achos hwn ers rhai misoedd bellach, roedd y 'cynnig rhagweithiol' wedi'i gynnig a'i sefydlu'n barod, gyda'r fam yn dewis siarad yn y Gymraeg. Mae Mwy Na Geiriau, sef y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2012, a'r fframwaith olynol 2016-2019, yn cydnabod bod 'iaith yn rhan gynhenid o ofal'. Mae'n datgan y dylai pobl sydd angen gwasanaeth Cymraeg gael y cynnig yma, sef y 'Cynnig Rhagweithiol', heb eu bod yn gorfod gofyn amdano (Llywodraeth Cymru, 2012, 2). Wrth adlewyrchu'n ôl, drwy gydol yr arsylwad teimlais awyrgylch eithaf naturiol ac anffurfiol rhwngof a Mam. Roedd gennym y duedd i ddefnyddio'r un math o Gymraeg, a hynny mae'n siŵr am ein bod yn byw o fewn yr un ardal - roeddem yn dueddol o ddefnyddio geirfa eithaf cyffredin, ac ambell i air Saesneg yng nghanol brawddegau Cymraeg a oedd yn sicr am wneud i Mam deimlo'n gyfforddus. Credaf fy mod wedi arddangos ymarfer sensitif yma, a pharch tuag at ddiwylliant ac iaith Mam yn unol â Chod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol (2018).

Wrth fyfyrion'n ôl ar yr arsylwad, teimlaf fy mod wedi cyfathrebu'n glir a strwythuredig. Credaf fod fy nghyswllt ffon efo Mam cyn yr arsylwad wedi bod o gymorth - yn ystod y sgwrs hon bum i mi ofyn ei chaniatâd i'r arsyllwr fod yn bresennol, ac egluro pwrpas y cyfarfod. Cymerais y cyfle ar gychwyn yr arsylwad i ail-ofyn ac atgyfnerthu'r hyn roeddem wedi'i drafod yn barod er mwyn sicrhau fod Mam yn deall yr hyn oedd yn digwydd, ac er mwyn sicrhau ei bod hi'n teimlo'n gyfforddus. Defnyddias iaith glir ac eglur, gan osgoi unrhyw dermau neu 'jargon' gwaith cymdeithasol a fyddai wedi ei eithrio o'r sgwrs (Maclean a Harrison, 2015, 33).

Teimais fy mod i wedi cymryd yr agwedd o wrando'n llwyddiannus drwy gydol yr arsylwad hwn wedi i mi roi'r cyfle i Mam gasglu ei meddyliau a'i barn yn ei amser ei hun. Ni fu i mi dorri ar thraws wrth i mi ofyn cwestiynau a thrafod ambell beth penodol (Adams et. al, 2009, 175). Teimlais ar brydiau roedd gan Mam y duedd i fynd oddi ar y pwnc, ac felly roedd yn rhaid i mi ei thynnu'n ôl i'r sgwrs, drwy gyfeirio neu ofyn cwestiwn a oedd wedyn yn ail-gyfeirio'r sgwrs yn ei ôl. Yn fy marn i roedd hyn yn adlewyrchiad ar Mam yn manteisio ar gyfle i gael sgwrsio a dadlwytho efo rhywun a oedd efo dealltwriaeth o'i sefyllfa a'r straen

roedd yn ei deimlo. Credaf hefyd fod hyn yn adlewyrchiad positif o'r math o berthynas sydd wedi'i ddatblygu rhyngof a Mam dros y misoedd diwethaf.

Wrth fyfyrion'n ôl ar yr arsylwad teimlais y dangosais sensitifrwydd ac empathi tuag dymuniadau a theimladau Mam (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017). Roeddwn yn ymwybodol nad oedd y penderfyniad hwn am ofal ysbaidd wedi bod yn un hawdd iddi gan ei bod wedi arfer gofalu am ei merch yn annibynnol ers blynyddoedd maith. Rwyf yn hyderus nad oes unrhyw bwysau wedi bod ar Mam i wneud y penderfyniad hwn ar ran ei merch, ac rydym wedi cael sawl sgwrs ymhlith ein gilydd, a gydag eraill yn amlddisgyblaethol fod y penderfyniad hwn er budd gorau'r unigolyn, a hefyd er mwyn ceisio cynnal eu sefyllfa fregus gartref drwy ddarparu rhywfaint o ysbaidd i Mam (Gweithdrefnau Diogelu Cymru, 2019).

Yn seiliedig ar sgysiau blaenorol rhyngof a Mam roeddwn yn ymwybodol nad oedd cyflwyno yr unigolyn i uned ysbaidd wedi bod yn llwyddiannus rhai blynyddoedd yng ngynt. Nid oedd hi wedi cael ei chyflwyno'n raddol i'r gwasanaeth y tro hynny, ac felly wedi cyrraedd y gofal ysbaidd yn gwbl ddirybudd. Cafodd hyn effaith negyddol iawn ar ei hymddygiad ar y pryd. Roeddem yn gytûn ei bod hi'n allweddol i gyd-gynllunio, a gweithio mewn partneriaeth, er mwyn ceisio osgoi hyn y tro yma. Felly holais Mam am ei meddyliau a'i barn ynglŷn â beth fyddai'n gweithio a sut y gellir cyflwyno'r unigolyn yn raddol i'r gwasanaeth. Fe wnes i hefyd sicrhau fy mod i'n ei hatgoffa'n rheolaidd fod ganddi'r gallu i adael mi wybod os nad oedd hi'n hapus neu eisiau newid unrhyw beth a oedd yn ymwneud a'r cynllun, ac y buaswn yn parchu ac yn gweithredu ar hyn. Yma roeddwn yn cyd-nabod mai Mam sydd yn adnabod yr unigolyn orau, ac felly roeddwn eisiau cymryd ei harweinyddiaeth hi o ran beth fyddai'n gweithio a ddim yn gweithio i sicrhau fod pethau'n gweithio allan, ac er budd gorau'r unigolyn. Roedd hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i mi aralleirio, a chrynhof yr hyn a ddywedodd Mam. Roedd hyn hefyd yn ffordd o gadarnhau a dangos i'r fam fy mod wedi gwrandao ac wedi deall yr hyn roedd ganddi i'w ddweud. Arweiniodd hyn at y sgwrs i ddod i ben mewn modd effeithiol.

Roeddwn yn teimlo fod cyfraniad Mam wedi bod yn hynod werthfawr ar ran ei merch. Fe wnes wedyn gloi'r sgwrs yn holi Mam os oedd ganddi unrhyw gwestiwn, ac os oedd hi'n glir ynglŷn ar camau nesaf - roeddwn yn teimlo ei bod hi'n bwysig sicrhau hyn er mwyn osgoi Mam i boeni am un rhywbeth ynglŷn â hyn. Credaf fod yr ymarfer uchod yn cyd-fynd a gofynion Chod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018) - rwyf bob amser yn ceisio sicrhau fy mod i'n cydymffurfio gyda safonau'r Cod hwn er mwyn sicrhau'r ymarfer gorau. Gweithiais mewn ffordd gydweithredol a gan barchu safbwyntiau a dymuniadau.

Fel y nodir uchod nid oedd gan yr unigolyn y gallu (capasiti) i wneud penderfyniadau dros ei hun, ac ni fyddai dulliau cyfathrebu addas wedi bod o gymorth i sicrhau ei dyheadau, ac felly'n seiliedig ar hyn nid oedd hi'n rhan o'r arsylwad hwn, ac felly roedd ei Mam yn eirioli dros ei rhan - cyfleu llais yr unigolyn. Er nad oedd yr unigolyn yn bresenol, wrth adlewyrchu'n ôl credaf fy mod i wedi ceisio ymarfer mewn dull a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gydol y sgwrs - roedd anghenion yr unigolyn wrth wraidd pob penderfyniad a oedd hefyd yn seiliedig ar fy nealltwriaeth glir o'i gallu ar hyn a oedd yn bwysig iddi hi er mwyn cyflawni ei chanlyniadau personol (Parker a Bradley, 2010, 78). Sylwais drwy gydol y sgwrs roedd Mam yn cyfeirio tuag at yr unigolyn, ac yn datgan mai y hi ydi'r unigolyn pwysicaf pob amser, felly penderfynais ddefnyddio dull a oedd yn seiliedig ar gryfder drwy dynnu'r ffocws yn nol arni hi fel y gofawr, a'i hatgoffa ei bod hi'r un mor bwysig, a'i bod hi'n allweddol ei bod hi'n edrych ar ôl hi ei hunain cymaint ag y mae hi'n ei wneud dros eraill. Roeddwn yn ceisio cyfathrebu'n gydweithredol er mwyn ceisio arwain Mam i wneud penderfyniad dros ei hunain, a'i fod ddim

yn cael ei wneud drosti hi er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol iddyn nhw fel uned teulu'n ogystal (Knott a Scragg, 2010, 132).

Nifer Geirfâu: 1,275

Adborth a sylwadau gan unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teulu neu ofalwyr

Ni ddylai y rhan yma o'r Arsyllu ddigwydd yng ngŵydd y dysgwr.

Gellid defnyddio rhai o'r cwestiynau yma gan yr arsyllwr (dylid eu haddasu gan ychwanegu esboniadau a phromptiau fel bo'r angen). Fel arall, gall y dysgwr lunio ei ddull ei hun o gael gwybodaeth i'r Arsyllwr ei ddefnyddio, os yw hyn yn fwy addas i anghenion yr unigolyn. Dylai'r arsyllwr gofnodi'r ymatebion isod neu drwy ddefnyddio'r dull arall gan yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teulu neu eu gofalwyr.

Cyn gofyn y cwestiynau rhaid i'r arsyllwr esbonio i'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau y bydd eu sylwadau yn cael eu rhannu gyda'r dysgwr. Gallai fod yn ddefnyddiol esbonio y bydd yn cael ei ddefnyddio fel offeryn dysgu i'r dysgwr ddatblygu ei ymarfer ei hun.

Os yw'r arsyllwr ddim yn gallu cael adborth, dylid dweud yn fras pam.

Oedd y gweithiwr cymdeithasol ar amser? Os oedd oedi wnaeth ef/hi gysylltu â chi?	Mynegodd y defnyddiwr fod y gweithiwr cymdeithasol wedi trefnu'r cyfarfod dros Teams, ac wedi ymuno yn brydlon ac yn amlwg wedi paratoi a gyda threfn am sut yr oedd yn bwriadu cynnal y cyfarfod.
A wnaeth y gweithiwr cymdeithasol gael eich caniatâd i'r arsyllwr fod yn bresennol? A wnaethon nhw esbonio pam eu bod yn cael eu harsyllu?	Dywedodd yr unigolyn fod y gweithiwr cymdeithasol wedi egluro iddi beth oedd fy rôl i yn mynd i fod yn y cyfarfod. Roedd wedi gofyn caniatâd ar unigolyn, wedi cadarnhau ei bod yn deall y drefn ac wedi sicrhau nad oedd yn teimlo dan bwysau i gytuno i'r trefniant yma. O ganlyniad i hyn, roedd yr unigolyn yn teimlo yn hollol hapus gyda fy mhresenoldeb yn y cyfarfod.
Oeddech chi yn glir pam fod y gweithiwr cymdeithasol wedi eich cyfarfod heddiw?	Roedd yr unigolyn yn hollol glir am y rheswm pam fy mod yn rhan o'r cyfarfod, ac nad oeddwn yno i roi unrhyw farn ar yr achos nac ar eu sefyllfa hwy fel teulu.
Yn eich barn chi, pa mor dda oedd y gweithiwr cymdeithasol wedi paratoi ar gyfer y cyfarfod gyda chi?	Roedd yr unigolyn yn credu fod y gweithiwr cymdeithasol wedi paratoi yn drylwyr, dywedodd ei bod yn gwybod beth oedd yn mynd i gael ei drafod ac roedd ganddi strwythur da wrth i'r trafodaethau ddatblygu.
Ydy'r gweithiwr cymdeithasol wedi gwrandao arnoch chi gan barchu eich barn a'ch dymuniadau?	Cadarnhaodd yr unigolyn fod y gweithiwr cymdeithasol wedi rhoi amser i wrando ar ei barn a'i dymuniadau, a hefyd wedi cymryd yr hyn yr oedd yn ei rannu 'on board'. Roedd yn teimlo bod y gweithiwr cymdeithasol yn sensitif i'w theimladau, tra hefyd yn derbyn bod yn rhaid iddi fod yn realistig a chymryd ystyriaethau ehangach i mewn i'r pictiwr wrth iddi fynd at i drefnu'r ddarpariaeth gofal.
A wnaeth y gweithiwr cymdeithasol siarad gyda	Roedd yr unigolyn yn teimlo fod iaith a ffordd y gweithiwr cymdeithasol o siarad yn glir ac yn hawdd iddi hi ei ddeall. Roedd hefyd wedi sylweddoli fod y gweithiwr cymdeithasol yn cadarnhau a

chi mewn ffordd yr oeddech yn ei ddeall? Oeddech chi'n deall yr iaith y gwnaethant ei defnyddio?	're-cappio' yr hyn oedd yn cael ei gytuno fel roedd y cyfarfod yn mynd yn ei flaen. Roedd yr unigolyn yn teimlo fod sgiliau cyfathrebu'r gweithiwr cymdeithasol yn aeddfed a phwyllog, tra hefyd yn glir a chadarn.
--	---